Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus**
—
Welsh Parliament
**Public Accounts Committee**

Dr Andrew Goodall

Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol/Prif Weithredwr GIG Cymru

24 Awst 2020

Annwyl Dr Goodall

**Caffael Cyfarpar Diogelu Personol**

Wrth baratoi ar gyfer sesiwn dystiolaeth y Pwyllgor gydag Andrew Slade ar 14 Medi, a fydd yn canolbwyntio ar gaffael cyhoeddus, gwnaeth yr Aelodau gais bod y broses o gaffael cyfarpar diogelu personol (PPE) yn cael ei thrafod yn ystod y sesiwn. Rwy'n ymwybodol nad yw'r mater hwn yn dod o fewn cylch gwaith Grŵp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol. Fodd bynnag, bydd rhai o feysydd gweithgarwch y grŵp sy'n berthnasol i faes ehangach caffael PPE yn cael sylw fel sy'n briodol yn y papur tystiolaeth.

Yn sgil hynny, byddwn yn gwerthfawrogi eich sylwadau am y broses o gaffael PPE, yn benodol yn ystod argyfwng iechyd cyhoeddus Covid-19, ac am y gweithdrefnau ar gyfer caffael yn ystod y cyfnod adfer a'r broses o gronni cyflenwadau i'w defnyddio yn y dyfodol ym mhob lleoliad iechyd a gofal cymdeithasol. Rwy'n gwerthfawrogi bod yr adroddiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon yn cynnwys nifer o argymhellion ynghylch PPE. Serch hynny, byddem yn ddiolchgar pe gallech ymateb i bryderon Aelodau'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus; neu, fel arall, pe gallech sicrhau fy mod yn cael copi o ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon, os ydych o'r farn bod hynny'n fwy priodol.

Byddem yn ddiolchgar pe bai modd i chi anfon eich ymateb atom erbyn 8 Medi, a hynny er mwyn caniatáu i'r Aelodau ei ystyried gyda'u papurau ar gyfer y cyfarfod ar 14 Medi. Ymddiheuriadau bod y cyfnod ymateb mor fyr.

Yn gywir,

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddArchwilio@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddPAC@senedd.wales
0300 200 6565

**Nick Ramsay AS – Cadeirydd**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English.